| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **Pwyllgor Craffu Corfforaethol** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **Gorffennaf 19 2012** |
| **TEITL** | **Strategaeth Gymunedol** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Cynghorydd Dyfed Edwards** |
| | |

**A. Rhowch enghreifftiau lle mae'r cydweithio wedi arwain at leihau dyblygu gwaith gan fwy nag un corff e.e. ym maes Plant a Phobl Ifanc, Iechyd ac yn y blaen.**

Un o brif amcanion partneriaeth Gwynedd ar y Cyd yw cynyddu cydweithio ymhlith partneriaethau yn y sir. Mae wedi gwneud hynny trwy hybu gweithio partneriaethol ar draws amryw o feysydd partneriaethol gwahanol, Iechyd, Plant a Phobl Ifainc, Diogelwch Cymunedol, Tai, yr Economi a'r Amgylchedd trwy gefnogi gwaith y partneriaethau yn y meysydd hynny.

Fodd bynnag, tynnir sylw at nifer o weithgareddau penodol dan nawdd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol sydd wedi lleihau dyblygu yn uniongyrchol.

a. <u>Prosiect Lleihau Carbon Gwynedd</u>
Mae'r prosiect yma wedi asio gweithgareddau lleihau ôl troed carbon sector gyhoeddus y sir trwy gydweithio ymarferol rhwng y sefydliadau.
Yn hytrach na phob sefydliad yn gweithio ar wahân, mae'r prosiect yma yn arwain gweithgareddau ar y cyd i leihau allyriadau carbon gyda Grŵp Cyflenwyr o'r sefydliadau unigol.
Hyd yma mae'r prosiect wedi arwain gweithgareddau ym meysydd ynni, gwastraff a thrafnidiaeth.
Gwelwyd lleihad o 15% mewn allyriadau ynni o adeiladau annomestig erbyn canol 2012. Mae hyn wedi arwain at arbedion ariannol yn ogystal â gwelliannau amgylcheddol. Yn achos Cyngor Gwynedd yn unig mae hyn wedi arbed dros £500,000 ac mae hefyd wedi cyfrannau at Gytundeb Canlyniadau'r Cyngor sydd wedi sicrhau £1.3m o arian grant ychwanegol i'r Cyngor, gan leihau'r pwysau am arbedion pellach ar wasanaethau craidd.

b. <u>Prosiect Partneriaid Mewn Gofal</u>
Mae'r prosiect yma yn lleihau dyblygu trwy gydlynu gwasanaethau iechyd a gofal yn lleol, gyda'r bwriad o wella gwasanaethau, lleihau achosion o fynediad brys i ysbytai, yn enwedig i gleifion â chyflyrau cronig. Cafodd y gwaith yma ei gychwyn fel cynllun peilot yng Ngwynedd, ac mae eisoes yn cael ei ehangu ar draws y gogledd gan Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ar y cyd â Gwasanaethau Cymdeithasol siroedd y gogledd a'r sector

wirfoddol. Mae sefydlu timau integredig yn ganolog i'r gwaith yma e.e. gwasanaethau cymdeithasol i oedolion, sefydlwyd pwynt mynediad unigol i wasanaethau

c. Prosiect Rhesymoli Partneriaethau
Mae Gwynedd ar y Cyd hefyd wedi arwain ar brosiect rhesymoli partneriaethau penodol er mwyn gwella effeithlonrwydd a lleihau dyblygu ymhellach ar draws Gwynedd ac Ynys Môn ym meysydd Diogelwch Cymunedol, Iechyd a Lles a Phlant a Phobl Ifanc. Mae'r prosiect yma sydd ar fin dod yn weithredol yn ystod misoedd yr Hydref wedi lleihau'r nifer o brif bartneriaethau strategol ar draws y ddwy sir o 8 i 1 a hefyd yn mynd i sicrhau lleihad o 10% yng nghostau cefnogi'r strwythur hynny.

**B. Rhowch unrhyw enghreifftiau lle na chafwyd llwyddiant i weithio'n fwy strategol drwy leihau cyfundrefnau. Beth oedd y rhwystrau a sut aed ati i geisio eu goresgyn?**

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi ceisio adnabod meysydd eraill lle'r oedd modd datblygu prosiectau cydweithio lleol - aed ati mewn nifer o feysydd i chwilio am gyfleon cydweithio yn cynnwys rhannu arbenigeddau, y defnydd o eiddo a recriwtio a hysbysebu ar y cyd. Mae'r gwaith ar y defnydd o eiddo yn dal ar waith gyda gwybodaeth yn awr yn cael ei rannu gyda golwg ar resymoli gofynion eiddo cyrff gwahanol. O ran yr hysbysebu yn y wasg, fe wnaeth y cynlluniau busnes wanhau er gwaethaf ewyllys gan y partneriaid i weld hynny yn llwyddo yn sgil yr arbedion yr oedd y partneriaid unigol yn gorfod ei gyflawni yn y maes hwn. Mae'r Bwrdd yn parhau i chwilio am unrhyw gyfleoedd cydweithio eraill a fyddai yn arwain at gydweithio effeithiol rhwng y prif sefydliadau cyhoeddus.

Mae'n debyg y byddai'n deg i ddweud mai'r pwyntiau a ganlyn sydd yn gyfrifol am fethiant i yrru mwy o bethau yn eu Blaenau:-

- Y ffaith bod y cyrff gwahanol oll yn adrodd i gyrff cyllido gwahanol ac yn atebol i gyfeiriadau gwahanol yn golygu nad oedd modd cael yr un lefel o gytundeb gan fod blaenoriaethau tymor byr y cyrff unigol yn tynnu'n groes. Gobeithir y bydd y canllawiau newydd ar gyfer Cynllunio Cymunedol yn galluogi partneriaid i oresgyn hyn.
- Diffyg capasiti i fedru gyrru cynlluniau cydweithio yn eu blaenau. Bu partneriaid yn cyfrannu rhan o amser staff tuag at brosiectau ond roedd blaenoriaethau dydd i ddydd bob amser yn mynd i dynnu'n groes i hyn

**C. Dangoswch sut ddaru chi adnabod y deilliannau yn y lle cyntaf? Ydych chi'n gyffyrddus mai rhain yw'r deilliannau cywir i bobl Gwynedd?**

Cynhaliwyd prosiect ymchwil ac ymgynghori Gwynedd Yfory yn wreiddiol yn 2006/07 er mwyn adnabod y prif ddeilliannau yn y lle cyntaf. Penderfynwyd ail ymweld â'r ymchwil a'r ymgynghori yn 2010-11 er mwyn adolygu'r dystiolaeth a diweddaru'r deilliannau yma ar gyfer dogfen "Gwella Gwynedd Gyda'n Gilydd"
Felly, ar sail tystiolaeth, ystadegau a thueddiadau yn y sir ac ymgysylltu trwyadl, fe adeiladwyd consensws ynglŷn â'r angen i gymryd camau mewn 7 maes ymyrraeth:

- Gwasanaethau Arloesol
- Newid Hinsawdd
- Economi a Sgiliau
- Tai
- Asedau Amgylcheddol
- Newid Demograffig
- Diwylliant a'r Iaith Gymraeg.

Mae'r deilliannau yma angen cael eu hadolygu yn gyson gan fod y dystiolaeth yn newid, yn enwedig mewn cyfnod o newid parhaus yn economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Penderfynwyd diweddaru'r Strategaeth Gymunedol yn 2011 ac fe wnaed hyn ar yr un pryd â'r gwaith ar Gynllun tair Blynedd presennol y Cyngor. Trwy hynny, adolygwyd y blaenoriaethau gan adnabod y deilliannau canlynol. Unwaith eto wnaed hyn trwy ymgynghori ac adeiladu consensws ar draws y sir.

- Ardal ble mae'r economi yn ffynnu
- Ardal gydag Amgylchedd Cynaliadwy
- Ardal ble mae plant a phobl ifanc yn llwyddo
- Ardal gyffrous i fyw gyda chymunedau byrlymus
- Ardal gydag iechyd da a'r gofal gorau yn y gymuned.

Yn amlwg, mae angen parhau i gadw llygad barcud ar y maes, ac, wrth i'r Cyngor adolygu ei gynllun strategol ac wrth weithio tuag at flaenoriaethau ar draws Gwynedd a Môn, byddwn yn parhau i edrych ar y dystiolaeth am yr hyn sydd angen sylw.

**CH. Rhowch dystiolaeth glir o sut mae'r cynnydd ar brif dargedau Gwynedd ar y Cyd 2008-12 wedi gwneud gwahaniaeth i drigolion Gwynedd.**

a. Gellir crynhoi'r cynnydd ar brif dargedau Gwynedd ar y Cyd 2008/12 fel a ganlyn:

<u>Prosiect Partneriaid Mewn Gofal</u> yn cynnal rhagor o ofal integredig yn lleol. Timau lleol i reoli cyflyrau cronig yn eu lle mewn tair ardal yng Ngwynedd yn ogystal ag arweinyddion yn eu lle yn y Gwasanaeth Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol.
Nifer o gleifion a chyflyrau cronig yn derbyn triniaeth ar frys: Gostyngiad o 9% ers 2008. Nifer o ddyddiau mewn ysbyty: Gostyngiad o 22.8% ers 2008

Prosiect Lleihau Ôl Troed Carbon Gwynedd

Ym maes ynni, amcangyfrifir bydd y prosiect wedi arwain at leihad o 15% mewn allyriadau carbon partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol o adeiladau annomestig erbyn 2012.

Prosiectau o dan arweiniad Partneriaeth Economaidd Gwynedd a Chyngor Gwynedd.
Strategaeth Sgiliau Gwynedd a Môn. Mae Cynllun Gweithredu ar gyfer y Strategaeth yn cynnwys rhaglen o weithgareddau a phrosiectau sydd yn cryfhau sgiliau'r gweithlu.
Cefnogaeth ychwanegol i fusnesau. ee. Llwyddo'n Lleol, Cronfa Galluogi Menter, Cymunedau Cynhyrchiol, hyrwyddo newid yn yr economi wledig trwy arloesi.

Tai Fforddiadwy
426 uned yn rhwng 2007 a 2012

Ymgyrchoedd Partneriaeth Amgylcheddol Gwynedd
e.e. Hyrwyddo cynnyrch lleol a phrosiect tyfu bwyd, prosiect mesuryddion ynni, ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth am arbed ynni a lleihau gwastraff.
Prosiect "Cer a dy Fag"
Rhannu Gwybodaeth - Cyfeiriadur Amgylcheddol

Diwylliant a Iaith
Sefydlwyd Siarter Iaith i Wynedd yn 2008, gan gysoni'r defnydd o'r iaith Gymraeg ar draws sector gyhoeddus y sir.